Mae'r pynciau'n amrywiol iawn ac yn cynnwys y canlynol:

Sicrhau fod strwythurau maes twristiaeth ar gyfer y Gemau'n gywir:

- Rydym am sicrhau fod buddiannau lleol a rhanbarthol twristiaeth y DU, yn ogystal â'r rhai cenedlaethol, yn cael eu cynrychioli'n llawn wrth baratoi ar gyfer y Gemau
- Rydym am gael eich cyngor i sicrhau fod strategaeth farchnata 2012 y diwydiant twristiaeth ei hun o safon ddigon uchel

Lleoli'r DU fel cyrchfan cystal â'r un yn y byd:

- Rydym am sicrhau fod yr holl hyrwyddo a wnawn dramor yn adlewyrchu'n llawn amrywiaeth eang twristiaeth yn y DU – gan gynnwys Llundain, Lloegr, Yr Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon a'u holl ranbarthau.
- Rydym am fanteisio i'r eithaf ar dechnolegau newydd i farchnata er budd eich busnes
- Ein nod yw ymwela hyd yr eithaf ar gyfleoedd twristiaeth gorfforaethol

Gwella ansawdd ein croeso :

- Mae angen eich mewnbwn arnom i ddweud sut gallwn wella ansawdd llety ar gyfer twristiaid trwy gyfrwng y cynlluniau graddio
- Rydym yn awyddus i wella'r cyfleusterau rydym yn eu cynnig i ymwelwyr anabl – o dramor ac yn y DU
- Rydym am helpu pawb sy'n gweithio ym maes twristiaeth i werthfawrogi mor bwysig yw canolbwyntio ar y Gemau.

Does dim gwahaniaeth faint o'r cwestiynau y byddwch yn dewis eu hateb. Byddwn yn defnyddio eich holl ymatebion i greu'r strategaeth fydd yn dilyn.

Bydd y strategaeth yn defnyddio fframwaith polisi cenedlaethol presennol y Llywodraeth ar gyfer twristiaeth fel man cychwyn, ond mae arnom angen syniadau newydd ac arloesol hefyd – a dyma ble gallwch fod o gymorth i mi.

Mae'n bwysig eich bod yn cymryd rhan – fel y gallwn elwa o'ch profiad – a helpu i lunio dyfodol twristiaeth yn y DU.

Sut i roi eich barn

Bydd angen i ni dderbyn pob ymateb i'r ymgynghoriad ar y strategaeth dwristiaeth ar gyfer Gemau 2012 erbyn 17 Tachwedd 2006.

Os hoffech gael copi un ai:

Ewch i www.culture.gov.uk/tourism2012.htm
Ffoniwch 020 7211 6335
Mae'r llinellau'n agored o 9.30am hyd 4.30pm

Neu ffoniwch ein partneriaid:

VisitBritain 020 8846 9000
Visit London 020 7234 5847

Neu ysgrifennwch at:

Tourism 2012 Consultation Project Team
Tourism Division
6th Floor
Department for Culture, Media & Sport
2-4 Cockspur Street
London SW1Y 5DH

department for culture, media and sport

2-4 Cockspur Street
London SW1Y 5DH
www.culture.gov.uk

Argraffwyd yn y DU ar bapur wedi'i ailgylchu
© Hawlfraint y Goron
Gorffennaf 2006 PP925

department for culture, media and sport

Y CROESO > Y GWADDOL

STRATEGAETH DWRISTIAETH AR GYFER GEMAU 2012 – YMGYNGHORIAD



visit LONDON

visit Britain

improving the quality of life for all

CYNNAL GEMAU OLYMPAIDD LLUNDAIN 2012 – CYFLE I DDWEUD EICH DWEUD

Fel yr Adran o'r Llywodraeth sy'n gyfrifol am dwristiaeth, mae DCMS yn ymgynghori ar hyn o bryd ar strategaeth gynhwysfawr i fanteisio i'r eithaf ar Gemau Olympaidd Llundain 2012 a'r Gemau Paralympiadd. Rhaid i'r DU fod yn barod i groesawu'r byd, ac i dynnu sylw at yr amrywiaeth eang o atyniadau a chyfleusterau ar gyfer twristiaid.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda VisitBritain a Visit London i gynnal yr ymgynghoriad ehangaf erioed ar ddiwydiant twristiaeth y DU. Bydd hwn yn llywio strategaeth effeithiol i sicrhau fod y diwydiant twristiaeth yn barod i elwa gant y cant ar y cyfleoedd rhyfeddol a ddaw yn sgil Gemau Llundain.

Prun a ydych yn berchen llety gwely a brecwast, yn rheoli parc thema neu dy hanesyddol, yn rhedeg cadwyn o westai, neu'n gyfrifol am swyddfa dwristiaeth awdurdod lleol, dyma'r cyfle i chi ddweud eich dweud.

Pam y dylech gymryd rhan

Fel rhywun sy'n gweithio ym maes twristiaeth, mae eich barn yn hollbwysig. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ym mis Tachwedd 2006, felly byddem yn ddiolchgar iawn pe baech yn mynd ati i ateb y cwestiynau cyn gynted ag y bo modd.

Bydd Gemau Olympaidd Llundain 2012 yn gyfle na fu erioed ei debyg i ddiwydiant twristiaeth y DU. Amcangyfrifir y bydd rhwng 50 a 75 y cant o enillion economaidd y Gemau o fudd i dwristiaeth - ac mae rhagamcanion cynnar yn awgrymu y bydd y ffigur rhwng £1.4 a £2 biliwn. Cred DCMS a'i bartneriaid mai fel mannau cychwyn yn unig y dylid ystyried y ffigurau hyn. Os bydd paratoadau'r diwydiant ar gyfer y Gemau'n llwyddiannus, yna gallent adael gwaddol o dwf a fydd yn para am ddegawdau.

Daw'r Gemau â thwristiaid newydd - nid yn unig i Lundain, ond i'r DU gyfan - wrth i'r wlad gael sylw ar draws y byd. Rhoddodd Gemau Sydney ac Athen hwb anferthol i dwristiaeth - wrth i bobl fanteisio ar y cyfle i ymweld a theithio o gwmpas Awstralia a Gwlad Groeg.

Ond rhaid i ni fod wedi paratoi'n drylwyr i'r diwydiant twristiaeth allu manteisio'n llawn ar gynnal y Gemau. Mae angen i ni glywed eich barn felly er mwyn sicrhau fod :

- Buddiannau twristiaeth yn cael eu cynrychioli'n llawn wrth wneud bob penderfyniad am y Gemau
- Y DU – a'i gwledydd, ei rhanbarthau a'i dinasoedd – yn gallu ei marchnata ei hun yn effeithiol i gynulleidfaoedd rhyngwladol a lleol
- Ansawdd ein twristiaeth, a sgiliau'r bobl sy'n gweithio yn y maes, o safon arbennig o uchel.

Gyda phwy y byddem ni'n hoffi siarad

Mae'r ddogfen ymgynghori'n ceisio barn a sylwadau ar bob maes o dwristiaeth y DU - o gefn gwlad i lan-y-môr a dinasoedd, llety o bob math, safleoedd ac adeiladau hanesyddol, orielau ac amgueddfeydd cenedlaethol, hyd at siopau anrhegion a chaffis. Bydd yn cael ei ddefnyddio i lunio strategaeth dwristiaeth gynhwysfawr ar gyfer Gemau 2012, a fydd yn nodi camau clir i economi'r DU fanteisio i'r eithaf ar y Gemau.

Nod y strategaeth fydd ceisio rhoi hwb i ddiwydiant twristiaeth y DU wrth baratoi ar gyfer 2012. Bydd hefyd yn creu gwaddol parhaol ar ffurf diwydiant twristiaeth ffyniannus, arloesol, a safon uchel yn elfen greiddiol ohono.

Er mwyn i ni fedru gwneud hyn, mae arnom angen cael barn a chynigion gan bobl sy'n gweithio yn y diwydiant twristiaeth ar bob lefel, ar hyd a lled y DU, gan gynnwys:

- Cyrff cynrychioliadol mewn twristiaeth a lletygarwch
- Busnesau, o gwmnïau rhyngwladol i berchnogion safleoedd twristaidd a lletygarwch unigol
- Llywodraeth genedlaethol, ranbarthol a lleol ar draws Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon
- Cynrychiolwyr a grwpiau defnyddwyr
- Sefydliadau mewn sectorau eraill a fydd yn cyfrannu at lwyddiant y Gemau o safbwynt twristiaeth, gan gynnwys chwaraeon, diwylliant, treftadaeth, y celfyddydau a'r cyfryngau.

Beth hoffem ei wybod

Rydym yn awyddus i gael yr amrywiaeth fwyaf posibl o ran barn pobl, ac felly mae'r ddogfen ymgynghori'n cynnwys cyfres o gwestiynau sy'n gofyn am sylwadau ar syniadau sy'n cael eu cynnig gennym. Ni fydd y cwestiynau i gyd yn berthnasol i'ch math chi o dwristiaeth, ond byddem yn gwerthfawrogi'n fawr pe baech chi'n cymryd amser i ateb y rheini sy'n berthnasol i chi.